# Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
# YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN
# 2024/2025

**Cefndir**

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio cynllun trosglwyddo i gefnogi pontio dysgwyr o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, yn unol â fframwaith Cwricwlwm Cymru. Ar hyn o bryd nodir gofynion cyfreithiol ar gyfer pontio o ysgol cynradd i ysgol uwchradd yn Rheoliadau **Pontio newydd 2022**, sydd yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2022. Rhaid i gynlluniau pontio fod ar waith ac yn weithredol o ddechrau pob blwyddyn academaidd. Rhaid **cyhoeddi** ac **adolygu cynlluniau bob blwyddyn**: Pontio o ganllawiau cynradd i'r ysgol uwchradd - Hwb (llyw.cymru)

**Diben**

Nod y cynllun pontio canlynol yw cefnogi a gwella'r cysylltiadau rhwng ein clwstwr o ysgolion gyda ffocws penodol ar weithio ar y cyd er mwyn cyflawni'r canlynol:

- galluogi dysgwyr i wireddu'r 4 diben.
- datblygu dealltwriaeth cyffredin o gynnydd ar lefel clwstwr er mwyn sicrhau bod profiadau dysgwyr yn gysylltiedig, dilys a pherthnasol.
- sicrhau cynnydd ar draws y clwstwr i gefnogi tegwch, lles, ac anghenion cyffredinol pob dysgwr.
- sicrhau pontio llyfn lle mae ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn deall pam, beth, a sut y bu dysgwyr yn dysgu a nodi'r camau nesaf wrth ddysgu i gefnogi eu haddysg a'u lles.
- sicrhau cyflymder a her briodol mewn dull ysgol/clwstwr o gynnydd wrth ddatblygu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Mae datblygu dealltwriaeth cyffredin o gynnydd yn galluogi ymarferwyr ar draws y clwstwr i archwilio a yw eu disgwyliadau ar gyfer dysgwyr yn ddigon heriol a realistig, ac a oes angen unrhyw gymorth gan unigolion.

**Mae cynllun pontio Clwstwr Bro Myrddin wedi'i rannu'n 4 adran.**
***Gofynion cyfreithiol a nodir yng nghanllawiau pontio CiG fel a ganlyn:***

**1.** Rheoli a chydlynu'r broses bontio.
**2.** Sicrhau dilyniant yn y dysgu ac addysgu a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
**3.** Cefnogi cynnydd dysgwr unigol a bod ei anghenion dysgu a lles yn cael ei gefnogi wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
**4.** Cynigion ar gyfer adolygu a monitro effaith y pontio.

**Rôl y Rhanddeiliaid**

| Awdurdod lleol | Ysgolion/Clwstwr | Dysgwyr | Rhieni/Gofalwyr |
|---|---|---|---|
| Darparu cymorth clwstwr pwrpasol, cyngor, a datblygiad proffesiynol (fel sy'n briodol).<br><br>Gweithio ar y cyd i adeiladu a gweithredu'r cynllun pontio'n effeithiol, os oes angen. | Gweithio ar y cyd i adeiladu a gweithredu'r cynllun pontio yn effeithiol.<br><br>Cyfathrebu a rhoi gwybodaeth gyfoes a pherthnasol i rieni/gofalwyr ynglŷn â'r broses bontio (gan gynnwys trefniadau trafnidiaeth*).*<br><br>Yr holl staff i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r continwwm dysgu drwy gyfrannu at ddeialog broffesiynol, e.e., gweithredu ac adolygu'r cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.<br><br>Cyhoeddi cynlluniau trosglwyddo; ac adolygu'n gyson er mwyn gwella'r broses bontio. | Ymroi i'r profiadau dysgu pontio.<br><br>Gofyn cwestiynau, cyfathrebu, a chydweithio ag eraill e.e., eu cyfoedion, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr.<br><br>Cael llais yn y datblygiad, gweithredu, ac adolygu'r cynllun pontio.<br><br>Gwneud defnydd llawn a chynyddol o'u sgiliau, eu gwybodaeth, a'u profiadau. | Cefnogi ac annog dysgwyr i gymryd rhan yn y broses bontio e.e. nosweithiau agored, diwrnodau pontio ac ati.<br><br>Cydweithio a chyfathrebu gydag ysgolion i sicrhau bod anghenion dysgu a lles eu plentyn yn cael eu diwallu trwy ddatblygu perthnasoedd positif. |

## 1. Rheoli a chydlynu'r broses bontio

| | Gweithgaredd | Pryd | Cyfrifoldeb | Amcanion | Pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt 2024 / 2025 (Os yn berthnasol) | RAG | Y camau nesaf ar gyfer 2025 / 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfarfodydd Penaethiaid Clwstwr – Pontio i'w roi ar bob agenda | Pob tymor | Penaethiaid | Cyfathrebu cryf o fewn y clwstwr | Miss Siân Thomas yn gweithredu fel cyswllt ac ysgrifenyddes | | Parhau gyda'r drefn bresennol |
| 2 | Enwebu aelod staff dynodedig yn yr ysgol i fod yn Gydlynydd Clwstwr | Cyfarfod cyntaf | Penaethiaid | Pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd yn cael eu gweithredu a'u cyflawni. | Penaethiaid y Clwstwr wedi cytuno mai Miss Nia Williams, Pennaeth Cynorthwyol YGGBM bydd Cydlynydd y Clwstwr | | |
| 3 | Dyddiau pontio i fl.5 + 6 | Pennu diwrnodau yn ystod yr Haf ar gyfer y flwyddyn olynol. | Ysgolion cynradd ac uwchradd | Dysgwyr yn dechrau datblygu perthnasoedd cadarnhaol i fod yn fwy hyderus, hapus, a gwydn wrth iddyn nhw drosglwyddo i Flwyddyn 7. | Sicrhau diwrnodau penodedig ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i bontio. Diwrnod ar gyfer Blwyddyn 5: Gorffennaf 2il 2025. Dau ddiwrnod i Flwyddyn 6: Gorffennaf 10fed ac 11eg, 2025. | | Diwrnodau Pontio:<br>Blwyddyn 5 – Gorffennaf 2il 2025.<br>Blwyddyn 6 – Gorffennaf 10fed ac 11eg 2025. |
| 4 | Diwrnodau/nosweithiau agored | Tymor yr Hydref | Ysgol Uwchradd | | Noson rieni pontio bl.6, Gorffennaf 10fed, 2025. Dyddiad Noson Agored Tymor yr Hydref 10fed o Hydref, 2024. | | Noson rieni pontio bl.6, Gorffennaf 10fed, 2025. Dyddiad Noson Agored Tymor yr Hydref 10fed o Hydref, 2024. |
| 5 | Gwefan pontio gyda gwybodaeth allweddol e.e. trefniadau diwrnodau Pontio a threfniadau diwrnod | Parhaus | Ysgolion Uwchradd a Chynradd | | Diweddaru'r gwefan Pontio i gynnwys fideo tymhorol a phodlediadau Pontio YGGBM i ddangos ychydig o'r hyn sydd gan | | Parhau i ddiweddaru ein gwefan pontio a gwefan Cwricwlwm i Gymru. Rhannu'r dolenni cyswllt gyda'r Ysgolion Cynradd er |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ysgol, dyddiadau allweddol, clybiau allgyrsiol a'r Podlediadau Pontio. | | | | yr ysgol i gynnig. Bydd modd cadw'r holl ddogfennau perthnasol i rieni mewn man canolig. Gwefan CiG hefyd yn weithredol ac angen ei ddiweddaru. | | mwyn iddynt hysbysu'r rhieni.<br><br>Rhannu'r ddolen gyswllt i'r Podlediadau Pontio gyda'r ysgolion cynradd er mwyn eu rhannu gyda'r rhieni. |
| **6** | Cludiant ysgol - Dolen i Bolisi Trafnidiaeth LA: | Dechrau'r broses bontio | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Mae rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer cludiant ysgol am ddim o gyfnod cynnar yn y broses bontio | Cais bod y sir yn gwneud y polisi yn fwy hwylus ar gyfer rhieni. | | |

**2. Sicrhau dilyniant yn y dysgu a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd**

| | Gweithgaredd | Pryd | Cyfrifoldeb | Amcanion | Pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt 2024/25 (Os yn berthnasol) | RAG | Camau Nesaf ar gyfer 2025/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cydweithio clwstwr ar gynllun cwricwlwm a threfniadau asesu. | Parhaus | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Sicrhau cysondeb a dealltwriaeth ar draws y continwwm dysgu o ddisgwyliadau ymarferwyr, cynnydd dysgwyr a threfniadau asesu. | Asesu a chynnydd yn bwyntiau trafod ar agenda cyfarfodydd gweithgorau MDaPh. | | Gwerthuso'r cydweithio a'r cynlluniau diweddaraf. Parhau i gydweithio fesul MDaPh Clwstwr er mwyn mapio gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau disgyblion ar draws y continwwm. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | Cydweithio fel clwstwr ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr mewn ffyrdd a ddisgrifir yn egwyddorion dilyniant, gan gefnogi dysgwyr i ddatblygu tuag at y 4 diben. | Parhaus | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Dilyniant addas i ddisgyblion yn y cwricwlwm a'r disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol ar hyd y continwwm. | Cyfarfodydd Gweithgorau MDaPh yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws penodol wedi'i gytuno ymlaen llaw. | | Gweithgorau Clwstwr i bob MDaPh yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod ein cwricwlwm yn caniatáu i ddisgyblion wneud cynnydd. |
| **3** | Cydweithio fesul MDaPh er mwyn datblygu dilyniant yng nghwricwlwm y Clwstwr. | Fel y bo'n briodol | Penaethiaid Cydlynwyr MDaPh | Cydlynwyr y MDaPh yn rhannu arfer dda ac yn cydweithio er mwyn datblygu strategaethau ac adnoddau pwrpasol i gefnogi cynnydd disgyblion. | Cyfarfodydd MDaPh ILlaCh i drafod dulliau ysgrifennu a'r gweithgor Mathemateg a Rhifedd i drafod addysgeg.<br><br>Cyfarfodydd MDaPh eraill i ddilyn. | | Gweithgorau MDaPh yn cydweithio er mwyn mapio a chynllunio dilyniant mewn cysyniadau penodol ym mhob maes dysgu. |
| **4** | Lle bo'n briodol, rhyddhau ymarferwyr i arsylwi arferion da yn yr uwchradd a'r cynradd. | Fel y bo'n briodol | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Mwy o ddealltwriaeth o addysgeg effeithiol. Mwy o gydweithio i ddatblygu cysondeb ar draws y continwwm dysgu a chryfhau'r berthynas ar draws y clwstwr. | Cryfhau dealltwriaeth athrawon o'r continwwm mewn Meysydd penodol er mwyn cefnogi dilyniant llyfn i'r disgyblion a sicrhau cynnydd. | | Triawdau o athrawon yn cydweithio er mwyn rhannu arfer dda ar draws y continwwm. |
| **5** | Cyd-lunio, cyhoeddi, gweithredu, ac adolygu cynllun gweithredu i ddangos sut y gall y clwstwr ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. | Parhau (Gorfodol o fis Medi 2023) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Sicrhau cysondeb a dealltwriaeth ar draws y continwwm dysgu o ddisgwyliadau ymarferwyr o gynnydd dysgwyr. | Trafodaethau cyson wedi bod yn y cyfarfodydd.<br><br>Bydd angen creu cynllun ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn ystod y flwyddyn academaidd. | | Adolygu effaith y cynllun a'i fireinio'n ôl yr angen. |

**3. Cefnogi cynnydd dysgwr unigol a bod eu anghenion dysgu a lles yn cael ei gefnogi wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.**

| | Gweithgaredd | Pryd | Cyfrifoldeb | Amcanion | Pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt 2024/2025 (Os yn berthnasol) | RAG | Camau Nesaf ar gyfer 2025/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cydweithio clwstwr ar ddatblygu dealltwriaeth o sut i gefnogi lles disgyblion. | Hydref 25ain 2024 | Ysgolion cynradd ac uwchradd | Sicrhau dealltwriaeth ar draws o'r effaith caiff trawma ar les a chynnydd disgyblion. Datblygu dealltwriaeth o strategaethau gellir defnyddio i gefnogi disgyblion. | HMS Clwstwr – staff cynradd ac uwchradd i gyd i fynychu hyfforddiant 'Trauma Informed Schools' yn YGGBM ar Hydref 25ain 2024. | | Gwreiddio egwyddorion Trauma Informed Schools.<br><br>Penderfynu ar ffocws ar gyfer HMS Clwstwr ar gyfer y flwyddyn academaidd. |
| **2** | Sesiynau lles/ dod i adnabod yn cael ei amserlenni i fl.6 yn ystod diwrnodau pontio | Tymor yr Haf | Ysgolion Uwchradd | Gwell dealltwriaeth o daith dysgwyr ar y continwwm dysgu a thargedau i wella | . | | Cytuno ar ddiwrnod Pontio ar gyfer y flwyddyn academaidd. |
| **3** | Trafod manylion a gwybodaeth berthnasol yn y cyfarfodydd trawsnewid/cyfarfodydd cynnydd disgyblion rhwng ysgolion uwchradd a chynradd | Tymor yr Haf | Ysgolion cynradd ac ysgol Uwchradd<br>CADY<br>Pennaeth Blwyddyn<br>Aml-asiantaeth<br>Dysgwyr | Rhennir gwybodaeth allweddol am y dysgwr/au gan gynnwys:<br>• lles cyffredinol yn yr ysgol<br>• cynnydd unigol/grŵp<br>• anghenion dilyniant yn y dyfodol | | | |
| **4** | Adolygiadau blynyddol/tymhorol i gynnwys | Cyn y Nadolig | Aml-asiantaeth<br>CADY<br>Athrawon + TA | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cynrychiolwyr o'r ysgolion cynradd ac uwchradd. | | Rhieni/gofalwyr Dysgwyr | • sut y gellir cefnogi cynnydd y disgybl | | | |
| **5** | Rhoi cyfle i rieni'r disgyblion sydd ag ADY i gael cyfarfod gyda'r Staff Uwchradd yn ystod yr ymweliadau cyswllt. | Ionawr - Gorffennaf | CADY<br>Pennaeth Blwyddyn<br>Rhieni / Gofalwyr<br>Dysgwyr | | Disgyblion sydd ag ADY'n cael cyfle i ymweld gyda'r ysgol cyn y diwrnod Pontio. | | |
| **5** | Rhannu defnydd o ddulliau ac adnoddau addysgeg. | Parhaus | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Sicrhau bod trefniadau'r pontio yn gynhwysfawr ac yn diwallu anghenion pob dysgwr | Y model dysgu ac addysgu'n cael ei atgyfnerthu. | | |

**4. Cynigion ar gyfer adolygu a monitro effaith y pontio**

| | Gweithgaredd | Pan | Cyfrifoldeb | Amcanion | Pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt 2024 / 2025 (Os yn berthnasol) | RAG | Camau Nesaf ar gyfer 2025/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Llais rhanddeiliaid e.e. holiaduron, cyngor ysgol, trafodaethau parhaus | Parhaus | Miss Nia Williams, Pennaeth Cynorthwyol YGGBM<br><br>Mrs Tracy Jenkins, Pennaeth Blwyddyn 7 | Sicrhau bod llais yr holl rhanddeiliaid yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu, adolygu a diwygio cynlluniau pontio presennol ac yn y dyfodol | Trefniadau Pontio'n cael eu cynnwys ar agenda cyfarfodydd Penaethiaid Clwstwr yn Nhymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf. | | Trefnu holiadur Forms ar gyfer disgyblion bl.7 yn holi barn ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau trosglwyddo ar eu cyfer. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Penaethiaid ardal/Clwstwr<br><br>Llywodraethwyr cysylltiedig | | | | |
| **2** | Trafodaethau rheolaidd rhwng yr holl randdeiliaid a fydd yn cael eu bwydo'n ôl i'r cyfarfodydd clwstwr. | Parhaus | Yr holl randdeiliaid<br><br>Penaethiaid ardal/Clwstwr<br><br>Llywodraethwyr cysylltiedig | Sicrhau bod trefniadau'r pontio yn gynhwysfawr ac yn diwallu anghenion pob dysgwr. | | | |
| **3** | Cyfarfodydd clwstwr i drafod, adolygu a monitro effeithiolrwydd cynlluniau pontio a nodi diwygiadau. | Parhaus | Ysgolion cynradd ac Uwchradd | Diwygio’r cynlluniau a gweithdrefnau pontio’n ôl yr angen ar sail trafodaethau. | | | |

**Cyhoeddi cynlluniau pontio**

Rhaid cyhoeddi cynlluniau pontio ar ddechrau'r flwyddyn ysgol neu cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y bwriedir iddynt wneud cais iddynt.

## Templed Dewisol – Adolygiad o Gynllun Pontio 2023/2024

**Clwstwr:** ______________________________

**Dyddiad yr adolygiad:** ______________________________

**Llofnodwyd:** ______________________________

**Dyddiad:** ______________________________

| **Canolbwynt** | **Cryfderau/Beth sy'n gweithio'n dda?**<br>**Beth yw'r effaith?** | **Heriau** | **Ffyrdd ymlaen**<br>**Newidiadau**<br>**Argymhellion** |
|---|---|---|---|
| Rheoli a chydlynu'r broses bontio | | | |
| Sicrhau dilyniant yn y dysgu a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd | | | |
| Sicrhau cynnydd dysgwyr unigol <u>**a**</u> sicrhau y bydd anghenion dysgu a lles pob dysgwr unigol yn cael cefnogaeth wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd | | | |
| Adolygu a monitro effaith y pontio | | | |